# CABINET

Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, a thrwy gynhadledd fideo ddydd Mawrth, 21 Tachwedd 2023 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Jason McLellan, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Threchu Amddifadedd; Gill German, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd; Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol; Elen Heaton, Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Julie Matthews, Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol; Barry Mellor, Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant; Win Mullen-James, Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio; Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau; ac Emrys Wynne, Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Ellie Chard, Huw Hilditch-Roberts, Hugh Irving, Alan James, Gareth Sandilands, Peter Scott, ac Andrea Tomlin

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (GB); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg (NS), Llywodraethu a Busnes / Swyddog Monitro (GW), a'r Amgylchedd a'r Economi (TW); Penaethiaid Gwasanaeth: Cyllid ac Archwilio (LT), Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (EJ), a Gwasanaeth Cefnogi Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau (HVE); Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai (AL); Rheolwr Prosiect Cynllunio Strategol (KM), Swyddog Cynllunio a Pherfformiad (EH), a Gweinyddwyr Pwyllgorau (KEJ a NPH [Gweddarlledwr])

## 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

Caniataodd yr Arweinydd ddatganiad gan y Cynghorydd Peter Scott, Cadeirydd y Cyngor.

Fel Cadeirydd y Cyngor Sir, bu i'r Cynghorydd Peter Scott longyfarch yr Arweinydd, y Cyngor a James Davies, AS am sicrhau bron i £20 miliwn dros dro ar gyfer gogledd y sir gan y Gronfa Ffyniant Bro. Roedd y Cynghorydd Scott yn sicr y byddai preswylwyr Sir Ddinbych yn elwa yn y dyfodol.

Bu i’r Arweinydd ddiolch i’r Cynghorydd Scott am ei ddatganiad ac eglurodd bod y cyllid yn ymwneud â thaliad cyfalaf unwaith yn unig ar gyfer prosiectau penodol yn unig na ellir ei ddefnyddio i fynd i’r afael â’r bwlch cyllido anferth sy’n wynebu’r Cyngor. Fodd bynnag, cafodd y cyllid ei groesawu, a byddai’r Cyngor yn gweithio’n galed i ddatblygu prosiectau yn unol â’r amodau cysylltiedig ac yn darparu'r buddion mwyaf o’r cyllid hwnnw.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2023.

**Cywirdeb –** Aelodau yn Bresennol – Dywedodd y Cynghorydd Alan James nad oedd ei bresenoldeb yn y cyfarfod diwethaf wedi’i gofnodi yng nghofnodion y cyfarfod hwnnw.

**Materion yn Codi –** Eitem 5 Datrysiad Storio ar gyfer ein Casgliadau Archifau – Cadarnhaodd y Cynghorydd Emrys Wynne bod y cais am gyllid ar gyfer y cyfleuster archifau ar y cyd newydd wedi’i gyflwyno i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yng Nghymru.

***PENDERFYNWYD,*** *yn amodol ar y pwynt cywirdeb uchod, derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2023 a chadarnhau eu bod yn gywir.*

## 5 DIWYGIO ASESIAD O ANGHENION LLETY SIPSIWN A THEITHWYR (2023) SIR DDINBYCH

Cyflwynodd y Cynghorydd Win Mullen-James yr adroddiad gan ofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i ddiwygiadau i’r Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr drafft i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Yr oedd yr adroddiad yn cynnwys atodiad cyfrinachol a oedd yn manylu gwybodaeth bersonol a gofynnwyd i’r Cabinet symud i sesiwn breifat wrth drafod elfennau cyfrinachol yr adroddiad.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu’r gofynion deddfwriaethol yn ymwneud ag asesu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr ac yn cadarnhau bod asesiad y Cyngor wedi’i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2021. Ers hynny, mae teulu ag anghenion presennol a oedd wedi gwrthod cymryd rhan yn flaenorol wedi gofyn a allant gael eu cynnwys a chytunwyd i adolygu’r asesiad. Sefydlwyd Grŵp Tasg a Gorffen i gefnogi gweithio ar yr asesiad newydd a chafodd eu hadroddiad ei gyflwyno i’r Pwyllgor Craffu Cymunedau ym mis Hydref 2023 a gymeradwyodd eu casgliadau ac argymhellwyd i’r Cabinet y dylid cymeradwyo’r Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr drafft diwygiedig i’w ail-gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Eglurodd y Cynghorydd Peter Scott, Cadeirydd y Grŵp Tasg a Gorffen, y cefndir o ran sefydlu’r Grŵp gan fanylu ar y gwaith a wnaed a oedd yn dod i benllanw mewn adroddiad terfynol a gafodd ei gyflwyno i’r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar gasgliadau ac argymhellion y Grŵp. Roedd y Pwyllgor Craffu wedi cymeradwyo casgliadau’r Grŵp Tasg a Gorffen: bod methodoleg Llywodraeth Cymru wedi’i defnyddio’n briodol i ddadansoddi’r angen a bod y dull a fabwysiadwyd ar gyfer darparu’r Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr yn gadarn ac yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru, a’r argymhelliad y dylid cymeradwyo’r Asesiad Llety Sipsiwn a

Theithwyr diwygiedig i'w ail-gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Roedd y Grŵp Tasg a Gorffen o'r farn bod y dull a ddefnyddiwyd ar gyfer y gwaith hwn, gyda chynrychiolaeth aelodau o bob Grŵp Ardal Aelodau, wedi gweithio'n dda ac roedd yr aelodaeth gyfredol yn awyddus i barhau i gydweithio ar waith yn y dyfodol.

Aeth y Cynghorydd Win Mullen-James drwy'r adroddiad gyda'r Cabinet. Yn gryno –

- y ddarpariaeth ychwanegol amcangyfrifedig sydd ei hangen am 5 mlynedd gyntaf cyfnod yr astudiaeth (2023/24 – 2028/29) yw 16 llain preswyl parhaol
- yn seiliedig ar yr angen erbyn 2033, bydd angen 2 llain preswyl parhaol arall
- felly, roedd y cyfanswm ar gyfer y cyfnod cyfan ar draws Sir Ddinbych yn 18 llain preswyl parhaol sy'n gynnydd o 6 llain preswyl parhaol o gymharu â'r Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr blaenorol a gwblhawyd yn 2021
- nid oedd tystiolaeth o'r angen am safle tramwy parhaol.

Anogodd y Cynghorydd Mullen-James y Cabinet i gymeradwyo argymhellion yr adroddiad i sicrhau bod y Cyngor yn bodloni ei ddyletswyddau cyfreithiol. Yn dilyn ail-gyflwyno'r Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr diwygiedig, roedd y cam nesaf yn cynnwys nodi safleoedd i fodloni'r anghenion hynny gyda chefnogaeth gan y Grŵp Tasg a Gorffen presennol. Bu i'r Cynghorydd Mullen-James ganmol y gwaith gwerthfawr a chydweithredol a wnaed gan y Grŵp Tasg a Gorffen a'r swyddogion ar yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr ac ategwyd hyn gan yr Arweinydd, y Cabinet ehangach a'r Prif Weithredwr.

Bu i'r Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad ddiolch i'r aelodau am eu cefnogaeth a'u her drwy gydol y broses gan ailadrodd pwysigrwydd cael methodoleg a dull cadarn fel y dangoswyd yn y gwaith hwn. Bu i'r Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai hefyd amlinellu diffiniad lleiniau preswyl a thramwy gyda phwyslais y gwaith presennol ar yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr a nodi'r angen; roedd cam nesaf y broses yn ymwneud â mynd i'r afael â'r angen hwnnw.

Bu i'r Cabinet gydnabod yr adroddiad cynhwysfawr ac ymgysylltiad cadarnhaol aelodau a swyddogion ac mae'r canlyniad yn brawf o'r gwaith caled hwnnw. Cyfeiriodd y Cynghorydd Julie Matthews at yr Asesiad o'r Effaith ar Les sydd wedi'i ddiweddaru ac roedd yn falch o weld bod rhagor o waith wedi'i gynllunio o ran parhau i adeiladu perthnasau gyda'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr a gwella canlyniadau iechyd a lles.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Emrys Wynne at yr anawsterau achlysurol a achoswyd o ganlyniad i wersylloedd diawdurdod mewn ardaloedd penodol, ac roedd yn teimlo y byddai'n dda archwilio'r posibilrwydd o gael 'safleoedd sydd wedi'u trafod' fel y cyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad i sicrhau bod safle addas ar gael i'w ddefnyddio i fynd i'r afael â'r mater. Adroddodd y Swyddogion ar y broses gyfredol ar gyfer rheoli gwersylloedd diawdurdod a gwaith y Swyddog Cyswllt Sipsiwn, Roma a Theithwyr i sicrhau ymgysylltiad priodol gyda'r rheiny sy'n teithio trwy Sir Ddinbych a sicrhau bod gwiriadau lles yn cael eu cynnal a bod cyfleusterau wedi'u darparu. Roedd gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i ddatblygu protocol ar y dull a reolir hwnnw ymhellach a fyddai'n cynnwys cyfranogiad pellach gan aelodau wrth i'r

mater fwrw ymlaen. Derbyniwyd bod meysydd o arfer da ar draws y DU a gwersi i'w dysgu o'r dulliau gwahanol hynny. Ychwanegodd y Cynghorydd Scott nad oedd tystiolaeth o'r angen am safle tramwy parhaol. Bu iddo adrodd ymhellach ar ddatblygiad y polisi gwersylloedd diawdurdod a oedd yn ceisio amddiffyn hawliau a chyfrifoldebau Sipsiwn a Theithwyr, preswylwyr lleol a budd-ddeiliaid allweddol a hefyd lleihau unrhyw effeithiau amgylcheddol a chymunedol. Byddai'r polisi hwnnw yn dilyn y broses ddemocrataidd ar gyfer cymeradwyaeth. Dywedodd y Cynghorydd Wynne nad oedd tystiolaeth bod angen safle tramwy parhaol ond roedd yn teimlo y byddai'n arfer da, er mwyn paratoi at unrhyw alw yn y dyfodol ac o ystyried yr anawsterau blaenorol a brofwyd, i allu cynnig safle addas at y diben hwnnw. O ran cynnal gwaith yn y dyfodol, yn cynnwys dewis safle ar gyfer lleiniau, cadarnhawyd mai'r bwriad oedd bod y Grŵp Tasg a Gorffen yn cymryd rhan yn y broses honno.

Ar ddiwedd y ddadl, ailadroddodd yr Aelod Arweiniol y gwaith gwerthfawr a wnaed gan yr aelodau a'r swyddogion ar yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr a bu iddo ddiolch iddynt am eu cyfranogiad.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*

*(a) cadarnhau ei gefnogaeth i'r dull o fynd ati i gyflawni adolygiad o Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr Sir Ddinbych fel un cadarn ac un a oedd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru;*

*(b) cymeradwyo Asesiad diwygiedig o Lety Sipsiwn a Theithwyr Sir Ddinbych i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru;*

*(c) rhoi awdurdod wedi'i ddirprwyo i Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio i gytuno ar fân newidiadau golygyddol sydd angen eu gwneud i'r Asesiad drafft o Lety Sipsiwn a Theithwyr cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, a*

*(d) chadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 4 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau. Cafodd hyn ei wneud cyn cyflwyno'r asesiad cyntaf yn 2021 ac roedd wedi'i adolygu yn 2023.*

**6 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM BERFFORMIAD Y CYNLLUN CORFFORAETHOL: GORFFENNAF – MEDI 2023**

Cyflwynodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis yr adroddiad a oedd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad y Cyngor yn erbyn ei Gynllun Corfforaethol ar ddiwedd mis Medi 2023, gan gynnwys yr amcanion Cydraddoldeb Strategol a'r saith maes llywodraethu allweddol.

Cynghorwyd y Cabinet bod fformat yr adroddiad wedi newid ychydig ers y chwarter diwethaf i adlewyrchu trafodaethau ar yr adroddiad hwnnw ac yn ystod yr adolygiad cyfran. Eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau bod yr adroddiad yn amlinellu perfformiad y Cyngor yn erbyn pob un o'r naw thema ar gyfer y cyfnod rhwng mis Gorffennaf a Medi 2023 ac roedd yn rhoi tystiolaeth a oedd yn ffurfio rhan o'r Hunanasesiad fel bo'n ofynnol o dan y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Defnyddiwyd y gwaith

hwnnw i dynnu sylw at lwyddiannau a meysydd o ddatblygiad ac mae hefyd yn dyfeisio ac yn gweithredu ymyriadau i'w gwella, ac anogwyd yr aelodau i ddefnyddio'r ddogfen fel offer mewn trafodaethau pellach wrth symud ymlaen.

Rhoddodd y Swyddog Cynllunio a Pherfformiad drosolwg cyffredinol o berfformiad a dywedodd bod statws yr holl fesurau ar gyfer pob thema yn 'oren – derbyniol' a bod prosiectau ychydig yn well gyda statws 'melyn – yn profi rhwystrau'; roedd hyn ac eithrio'r thema 'Sir Ddinbych teg, diogel a mwy cyfartal' gyda'r mesurau hynny yn dangos fel rhai 'coch – blaenoriaeth i'w gwella', gan adlewyrchu rhai o'r materion tymor hirach o ran bod heb waith ac amddifadedd materol. Rhoddwyd crynodeb o'r mesurau a'r prosiectau o dan bob un o themâu'r Cynllun Corfforaethol i'r Cabinet ynghyd â throsolwg o newyddion cyfrannol ac eitemau pwyllgor.

Bu i'r Arweinydd ddiolch i'r Aelod Arweiniol a'r swyddogion am y trosolwg a'r negeseuon allweddol sy'n codi o'r ddogfen gynhwysfawr. Nododd y Cabinet bod yr adroddiad yn adlewyrchu'r sefyllfa ym mis Medi 2023 a bod rhai pethau wedi symud ymlaen ers hynny. Codwyd y materion canlynol yn ystod y drafodaeth a ddilynodd –

- bod data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn cael ei gyhoeddi bob pedwar i bum mlynedd gyda'r data mwyaf diweddar sydd ar gael yn dod o 2019, a bydd aelodau yn cael eu cynghori o argaeledd y data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru newydd cyn gynted ag y mae'n dod yn hysbys. Roedd mesurau eraill hefyd yn cael eu holrhain, yn enwedig mewn perthynas â'r thema Sir Ddinbych teg, diogel a mwy cyfartal, fel aelwydydd mewn amddifadedd materol a phlant sy'n byw mewn tlodi.
- Soniodd y Cynghorydd Gill German am y gwaith da yn ei maes portffolio a oedd newydd fethu'r dyddiad cau ym mis Medi ar gyfer ei gynnwys yn yr adroddiad presennol. Cyfeiriwyd at y cyfleusterau gofal plant ychwanegol yn Ysgol Penmorfa ym Mhrestatyn gyda gwaith tebyg yn cael ei wneud yng Nghanolfan y Dderwen yn y Rhyl, a oedd yn brosiect gwych yn nhermau moderneiddio addysg a darparu cyfleusterau mewn ardal o amddifadedd, a'r Grŵp Chwarae Cyfrwng Cymraeg a oedd yn cefnogi'r gwaith yn Ysgol Dewi Sant a darpariaeth y Gymraeg. Derbyniwyd grant cyfalaf Llywodraeth Cymru i gefnogi gwaith ar ysgolion bro ac roedd ymgysylltiad cadarnhaol wedi bod gydag ysgolion o ran hynny. Nodwyd bod Ysgol Uwchradd Prestatyn, fel yr ysgol beilot ar gyfer y fenter, yn enghraifft o arfer da gyda manylion wedi'u darparu ynghyd ag ysgolion eraill ar wefan Llywodraeth Cymru.
- Cafwyd rhywfaint o ddadlau ynglŷn â phwysigrwydd y data yn yr adroddiad er mwyn monitro perfformiad a nodi arfer da a meysydd i'w gwella. Pwysleisiwyd mai nod y Cynllun Corfforaethol oedd darparu'r canlyniadau gorau posibl i breswylwyr a sicrhau gwelliannau ar draws pob thema wrth gydnabod bod hwn ar adeg o anawsterau ariannol difrifol a phwysau cyllidebol. Rhoddodd yr Arweinydd enghreifftiau yn ei faes portffolio o berfformiad da mewn pobl yn dod drwy gyflogaeth gynaliadwy a'r gwelliannau sydd eu hangen yn y rheiny sy'n hawlio lwfans ceisio gwaith a chredyd cynhwysol, ac ailadroddodd ymrwymiad y Cyngor i wneud gwahaniaeth cadarnhaol.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Emrys Wynne at nifer o faterion yn ymwneud â'i faes portffolio, yn enwedig addysg Cyfrwng Cymraeg a'r heriau a wynebwyd sy'n codi o'r gostyngiad mewn disgyblion ym Mlwyddyn 2 oherwydd y cyfnodau clo

covid. Bu iddo hefyd ddweud bod lleoliad newydd wedi'i sicrhau ar gyfer Cylch Meithrin yn Rhuthun a bod meithrinfa newydd wedi'i gymeradwyo i ddarparu gofal ac addysg Cyfrwng Cymraeg. Roedd llawer o waith wedi'i wneud mewn perthynas â'r prosiect tirlun yn Oriel Gelf Dory, Llangollen a gwaith i ddod â phrosiectau diwylliannol yn yr ardal ynghyd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ac i godi ymwybyddiaeth o Dreftadaeth Gymreig. Cyfeiriwyd at y Strategaeth Ddiwylliant sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru. Adlewyrchodd y Cynghorydd Gill German ar y cynnig diwylliannol a meysydd o waith da ar draws y sir a gofynnodd a ellir datblygu trosolwg o gynnig diwylliannol Sir Ddinbych, gydag enghreifftiau ar draws gwasanaethau'r Cyngor i ddangos y gwaith hwnnw. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes y byddai swyddogion yn gweithio i goladu'r wybodaeth angenrheidiol gyda'r bwriad o ddatblygu Strategaeth Ddiwylliannol i'r Cyngor gan ystyried ystyriaethau'r Gymraeg a pholisi Llywodraeth Cymru.
- Cododd y Cynghorydd Hugh Irving bryder o ran perfformiad mewn perthynas â chanran y ffyrdd a phalmentydd wedi'u difrodi a wnaed yn ddiogel o fewn y cyfnod targed (CAT1 – Diffygion Categori 1 yr ymdriniwyd â nhw o fewn yr amserlen). Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd a'r Economi bod heriau parhaus mewn perthynas â'r mesur, yn bennaf oherwydd y sefyllfa ariannol ac roedd nifer o swyddi gwag yn y Tîm Priffyrdd a oedd yn cael effaith ar ddarpariaeth gwasanaeth. Roedd y Cynghorydd Irving yn cydnabod y sefyllfa ariannol ond roedd yn teimlo y dylid rhoi blaenoriaeth uchel i'r mater.

Ar ddiwedd y drafodaeth, bu i'r Cynghorydd Gwyneth Ellis ddiolch i'r aelodau am eu cyfraniadau gan dynnu sylw at bwysigrwydd yr adroddiad o ran darparu darlun agored a thryloyw o berfformiad ac offer y Cyngor i nodi cyflawniadau a meysydd i'w gwella o fewn hinsawdd ariannol heriol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi perfformiad y Cyngor yn erbyn ei swyddogaethau ar ddiwedd chwarter 2 (Gorffennaf i Medi 2023) a chadarnhau cynnwys yr adroddiad drafft cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ar 30 Tachwedd 2023.*

## 7 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis yr adroddiad a oedd yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

Rhoddwyd crynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn –

- y gyllideb refeniw net ar gyfer 2023/24 oedd £250.793 miliwn (£233.696 miliwn yn 2022/23)
- rhagwelwyd y byddai gorwariant o £3.316 miliwn mewn cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol
- amlygwyd y risgiau ar hyn o bryd a'r rhagdybiaethau yn ymwneud â chyllidebau corfforaethol a meysydd gwasanaeth unigol
- rhoddwyd manylion arbedion ac arbedion effeithlonrwydd a chynnydd mewn ffioedd a chostau (£8.172 miliwn)

- rhoddwyd diweddariad cyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai, Rheoli'r Trysorlys a'r Cynllun Cyfalaf a phrosiectau mawr.

Arweiniodd y Pennaeth Cyllid ac Archwilio yr Aelodau drwy'r adroddiad. Amlygwyd y gostyngiad o ran y gorwariant a ragwelwyd ar gyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol o £3.446 miliwn y mis diwethaf i £3.326 miliwn ynghyd â chrynodeb o'r prif symudiadau. Roedd lleihad bychan wedi bod yn y gorwariant a ragwelwyd ar gyfer Gwasanaethau Addysg a Phlant a chynnydd yn y gorwariant a ragwelwyd ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Roedd y setliadau cyflog ar gyfer 2023/24 wedi'u cytuno arnynt ac roedd gwaith wedi'i wneud i gadarnhau costau ynni ac roedd yr arian hwnnw wedi'i ryddhau o gyllidebau corfforaethol a'i drosglwyddo i wasanaethau. Byddai ynni a thâl yn cael effaith gadarnhaol ar Gynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor gan edrych ymlaen tuag at gyllideb 2024/25. Nid oedd newidiadau i'r adroddiad mewn perthynas ag Ysgolion ac roedd y Cyfrif Refeniw Tai a'r atodiadau arferol wedi'u cynnwys ar y Cynllun Cyfalaf a'r diweddariad ar y Prif Brosiectau.

Bu i'r Arweinydd ddiolch i'r swyddogion am y Gweithdy ar Gyllideb y Cyngor a gynhaliwyd yr wythnos flaenorol lle cafwyd presenoldeb da ac adborth pwysig. Cyfeiriodd y Cynghorydd Gill German at y sefyllfa ariannol enbyd sy'n wynebu cynghorau ar draws Cymru a Lloegr ac roedd yn gobeithio y byddai gweithred bositif yn Natganiad yr Hydref i fynd i'r afael â'r pwysau digynsail sy'n wynebu llywodraeth leol. Cyfeiriodd yr Arweinydd at gyfarfod lefel uchel gydag Arweinwyr y Cyngor, Swyddogion A.151 a Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn ddiweddarach yn yr wythnos i ystyried y farn ar unwaith yn dilyn canlyniad Datganiad yr Hydref a byddai'n adrodd yn ôl wedi hynny.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2023/24 a'r cynnydd yn ôl y strategaeth y cytunwyd arni.*

## 8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet er mwyn i'r aelodau ei hystyried.

***PENDERFYNWYD*** *nodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet*.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.10 am.